Neuadd y Dref, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug. CH71AB E-bost: towncentremanager@moldtowncouncil.org.uk Ffôn: 01352 751819

# Materion Canol y Dref

..............newyddlen afreolaidd gan Reolwyr Tref yr Wyddgrug

Mai 2016

## Profiad Gwyliau'r Wyddgrug 2016

Mae Cyngor y Dref yn gweithio ochr yn ochr â Thîm Marchnadoedd Cyngor Sir y Fflint i ddod â phrofiad Nadolig unigryw'r i'r Wyddgrug fis Rhagfyr nesaf.

Bydd llawer ohonoch wedi ymweld â'r achlysuron Ffair Geltaidd llwyddiannus a phoblogaidd iawn sy'n digwydd ledled Gogledd Cymru ac yn cofio'r Ffair Nadolig lwyddiannus dros ben a gynhaliwyd ym Mharc Siopa Brychdyn yn ystod ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae Llandudno, Conwy a Bae Colwyn i gyd yn elwa ar hyn o bryd ar achlysuron Ffeiriau Celtaidd ar adegau gwahanol o'r flwyddyn ac yn gweld cynnydd sylweddol mewn ymwelwyr, gyda llawer o goetsis yn dod o mor bell â Lerpwl, Manceinion a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Er enghraifft, denodd Ffair Nadolig Geltaidd Parc Siopa Brychdyn ryw 40,000 o ymwelwyr dros 5 diwrnod, gyda llawer yno'n bennaf ar gyfer y ffair. Byddai'r achlysur wedi parhau heblaw am ehangu'r parc adwerthu trwy adeiladu tai bwyta, siopau a sinema newydd ar y safle. Er bod dewisiadau eraill, mae'r Ffair Geltaidd erbyn hyn wedi cytuno y daw i'r Wyddgrug gyda'r brif Ffair Nadolig yn ystod mis Rhagfyr 2016.

Y bwriad yw cynnal yr achlysur o ddydd Mercher, 7fed Rhagfyr i ddydd Sul, 11eg Rhagfyr a chwmpasu'r ddau ddiwrnod marchnad rheolaidd ynddi. Y prif amcan yw rhoi hwb sylweddol i fasnachwyr (y dref a'r farchnad stryd), gyda mwy o ymwelwyr a mwy o fasnach, yn ogystal â rhoi dewis i drigolion o bob rhan o'r Wyddgrug a chymunedau oddi amgylch yn lle siopa yng Nghaer neu Cheshire Oaks ochr yn ochr â chwistrelliad go iawn o hwyl yr ŵyl!

Ymhlith elfennau allweddol y cynnig mae'r canlynol:

- Bydd Profiad Gwyliau'r Wyddgrug yn achlysur partneriaeth rhwng Ffeiriau Celtaidd, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Tref yr Wyddgrug.
- Bydd yr achlysur yn rhedeg o ddydd Mercher 7fed Rhagfyr i ddydd Sul 11eg Rhagfyr, gyda sefydlu a chwalu o boptu'r dyddiau hynny. Mae siopa hwyrnos yn debygol o gael ei gynnwys o fewn y profiad, efallai ar y nos Iau.
- Bydd pebyll yn cael eu lleoli ar faes parcio Meadow Place a'u "cysylltu" â Chanolfan Daniel Owen a mannau eraill os oes galw mawr am stondinau.
- Bydd y farchnad stryd boblogaidd yn dal i fasnachu ar y dydd Mercher a'r dydd Sadwrn. Fodd bynnag, bydd tîm Marchnadoedd CSFf yn gwahodd stondinwyr i fasnachu ar Sgwâr Daniel Owen a thrwy'r Ganolfan Siopa ar holl ddiwrnodau eraill yr achlysur.
- Bydd siopwyr y dref (sydd ag amrywiaeth cynnyrch addas a chydnaws) yn cael eu gwahodd i gymryd stondin yn y Ffair Geltaidd am bris noddedig gan roi cyfle iddynt gymryd rhan uniongyrchol a hybu eu prif farchnad.
- Y gobaith yw denu rhyw 100 o stondinau, ynghyd â reidiau plant dan 9 oed, diddanwyr, ogof Siôn Corn, ac ati, os bydd digon o le.
- Bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cydgysylltu adloniant a phosibilrwydd animeiddiad ar y stryd drwy gydol y cyfnod, yn bennaf ar Sgwâr Daniel Owen ond mewn mannau eraill ar hyd a lled y dref hefyd.
- Bydd Ras Siôn Corn lwyddiannus y dref yn digwydd ar ddydd Sul 11eg Rhagfyr fel diweddglo i'r profiad gwyliau ochr yn ochr â gweithgareddau eraill.
- Bydd ymgyrch farchnata ranbarthol sylweddol yn digwydd ar gyfer yr achlysur, gan gyfuno â rhaglen yr ŵyl yn Theatr Clwyd.

Visit Mold

cittaslow mold
cittaslow yr wyddgrug

Y brif her i bawb wrth gwrs fydd parcio, yn enwedig ar y dydd Mercher a'r dydd Sadwrn, gyda maes parcio Meadow Place heb fod ar gael ynghyd â'r rhagolwg y bydd mwy o ymwelwyr â'r dref. Bydd y mater hwn yn gofyn dealltwriaeth a chyfaddawdu gan bawb; fodd bynnag, mae'r tîm Marchnadoedd a Chyngor y Dref yn ymwybodol iawn o drafferth i fasnachwyr, sy'n rhaid ei fantoli â'r buddiannau all ddod. Fel dangosydd cynnar, mae Ffeiriau Celtaidd eisoes yn cael ymholiadau gan gwmnïau bysiau ynghylch ble byddant yn cynnal eu hachlysur Nadolig arferol!

Y gobaith yw y bydd holl fasnachwyr y dref eisiau rhoi cyfle haeddiannol i'r cynnig hwn fanteisio'r dref yn ystod un o'r cyfnodau siopa pwysicaf yn y calendr. Mae'r Ffair Geltaidd yn awyddus i weithio gyda chymuned yr Wyddgrug a'i holl fasnachwyr i sicrhau bod Profiad Gwyliau'r Wyddgrug yn tyfu i ddod yn gyrchfan *"rhaid mynd iddi"* yn y blynyddoedd a ddaw ac, ar sail eu hanes, bydd yn rhoi cryn chwistrelliad o egni a bwrlwm i'r dref yn ystod cyfnod masnachu pwysig y Nadolig.

Cofrestrwch eich cyfeiriad e-bost yn supportofficer@moldtowncouncil.org.uk, ar Weplyfr: MoldTownCouncil neu Trydar: @moldtowncouncil i gael diweddariadau ar gynnydd a datblygiadau. Cysylltwch â Dave Hill, Rheolwr Tref yr Wyddgrug, neu Peter Hayes, Uwch-swyddog Marchnadoedd Sir y Fflint, os ydych eisiau trafod materion arbennig, a byddant yn ceisio rhoi sylw i unrhyw ymholiadau.

Cysylltiadau:
Dave Hill – Rheolwr Tref yr Wyddgrug e: tcm@moldtowncouncil.org.uk
t: 01352 751819
Peter Hayes – Marchnadoedd Sir y Fflint e: peter.hayes@flintshire.gov.uk
t: 07919166279

## Y diweddaraf ar Welliannau'r Dref…

Erbyn hyn mae Cyngor y Dref wedi cymeradwyo cynllun yr arwyddion newydd "Croeso i'r Wyddgrug" sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd ac mae'r Mannau Hysbysu Ymwelwyr ychwanegol yng nghyfnodau terfynol eu dylunio.

Mae'r contractwr llwybrau troed yn obeithiol, os yw'r tywydd ac amgylchiadau eraill yn caniatáu, y bydd mwyafrif y llwybrau troed tarmac ledled y dref wedi cael eu hailwampio yn gynnar ym mis Gorffennaf, gyda'r gwaith yn cael ei wneud yn bennaf ar ddydd Sul a dydd Llun i leihau'r effaith ar fasnach. Ddiwrnod neu ddau cyn i'r gwaith ddechrau bydd busnesau unigol yn cael clywed yr union ddiwrnod y gall yr ailwampio effeithio arnynt. Mae Cyngor y Dref wedi cytuno y bydd y llwybrau troed ar eu newydd wedd yn ddu, fel bod effaith unrhyw waith stryd yn y dyfodol yn llai amlwg.

Dechreuwyd gosod goleuadau stryd ychwanegol yng Nghanolfan Siopa Daniel Owen, yn ogystal ag uwchraddio'r goleuadau stryd i lampau ynni isel newydd o arddull dreftadol.

Cyflwynwyd yr arwyddion ffyrdd newydd, gan ddisodli'r myrdd o arwyddion ffyrdd presennol gyda rhai llawer mwy eglur a modern yr olwg.

I'ch atgoffa, daeth cyllid ar gyfer gwelliannau'r dref o arian parcio'r Wyddgrug oedd dros ben cyn i'r Cyngor Sir bennu taliadau ledled Sir y Fflint, pryd y tynnwyd y cyllid yn ôl o'r Wyddgrug. Yn ôl y gyfraith, rhaid defnyddio unrhyw arian dros ben o dderbyniadau parcio i wella seilwaith ymwelwyr.

**Gwybod be 'di be….**
Tra na all dim ddisodli Materion Canol y Dref… mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn ymdrechu i gysylltu â holl bobl yr Wyddgrug ar wahanol ffurfiau a gallwch gael hyd i Gyngor y Dref yn www.moldtowncouncil.org.uk ar Weplyfr, Trydar ac, os ydych eisiau cael eich cynnwys mewn cylchrediad e-bost rheolaidd, anfonwch eich cyfeiriad e-bost at Jane Evans yng Nghyngor y Dref ar supportofficer@moldtowncouncil.org.uk.

Visit Mold

cittaslow mold
cittaslow yr wyddgrug